

## Mewn Dyfroedd Dyfnion!

1. Ers faint mae Huw yn gweithio fel Biolegydd Môr?
2. Pa ansoddair mae Huw yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r creaduriaid y mae'n eu hastudio?
3. Pa ansoddeiriau eraill allwch chi feddwl amdanynt sy'n cyfleu rhywbeth tebyg i ateb cwestiwn dau?
4. Pa mor ddwfn mae'r gwyddonwyr yn astudio?
5. Pa offer maen nhw'n ddefnyddio i archwilio gwely'r môr?
6. Beth yw un o'r agweddau anoddaf am y teithiau?
7. Oni bai am y pethau mae Huw yn sôn amdanynt beth fyddech chi'n ei wneud i adlonni'ch hunain ar y llong? Cewch fynd ag unrhyw beth gyda chi... o fewn rheswm!
8. Gwaith pâr:  
Dychmygwch eich bod chi wedi darganfod "creadur hyll" ar wely'r môr. Ysgrifennwch baragraff i'w ddisgrifio yna cyfnewidiwch eich paragraff gyda'ch partner. Ceisiwch dynnu llun o greadur hyll eich partner. Yna trafodwch a chymharwch y lluniau gyda'r hyn oedd yn eich dychymyg.
9. Ewch ati i gyflawni'r dasg olaf ar y ddogfen 'Creaduriaid Hyll'.